Archwilio Cymru
Audit Wales

**Dyddiad cyhoeddi:** Ionawr 2026

# Hysbysiad preifatrwydd cyffredinol mewn perthynas â gwaith archwilio

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn dweud wrthych sut mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (ACC) a staff Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) yn prosesu gwybodaeth bersonol a gesglir mewn cysylltiad â'n gwaith. Mae gennym hysbysiadau preifatrwydd penodol ar wahân ar gyfer prosesu data staff SAC ac ar gyfer rhai gweithgareddau a phrosiectau eraill, megis ymarferion paru data.

## Pwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud

1 Archwilydd Cyffredinol Cymru yw archwilydd y rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus Cymru. Mae gwaith Archwilio Cymru yn cynnwys archwilio sut mae cyrff cyhoeddus yn rheoli ac yn gwario arian cyhoeddus, ac mae Archwilio Cymru (SAC) yn darparu'r staff a'r adnoddau i'w alluogi i gyflawni ei waith. Mae "Archwilio Cymru" yn nod masnach SAC ac mae'n hunaniaeth ymbarél AGW ac Swyddfa Archwilio Cymru. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan Archwilio Cymru.

## Dibenion y prosesu

2 Byddwn yn defnyddio data personol wrth arfer ein pwerau a'n dyletswyddau, sy'n ymwneud yn bennaf ag archwilio cyrff cyhoeddus a gweithgareddau i gefnogi gwaith o'r fath.

## Y cyfreithiau perthnasol

3 Rydym yn prosesu eich data personol yn unol â deddfwriaeth diogelu data, gan gynnwys Deddf Diogelu Data 2018 (DPA) a Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU (GDPR). Ar gyfer y rhan fwyaf o'n prosesu, y seiliau cyfreithlon yw'r pwerau a'r dyletswyddau a nodir yn Neddfeydd Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a 2013, Deddfau Llywodraeth Cymru 1998 a 2006, Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a deddfwriaeth amrywiol sy'n sefydlu cyrff cyhoeddus penodol, megis Deddf Safonau Gofal 2000. Mae rhagor o fanylion ar gael yn ein cyhoeddiad, *Canllaw i ddeddfwriaeth archwilio cyhoeddus Cymru*, sydd ar gael ar ein gwefan.

4 Yn amodol ar y pŵer neu'r swyddogaeth benodol, mae'r seiliau statudol hyn yn dod o dan Erthygl 6(c) ac (e) o GDPR y DU—prosesu sy'n angenrheidiol er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol, ar gyfer cyflawni tasg a gyflawnir er budd

y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol. Pan fyddwn yn prosesu data categori arbennig, y sail gyfreithiol ychwanegol ar gyfer prosesu hyn fel arfer fydd Erthygl 9(2)(g) o GDPR y DU (ynghyd â pharagraff 6 o Atodlen 1 i Ddeddf Diogelu Data 2018, yn achos data troseddau troseddol) sy'n ymwneud ag arfer swyddogaeth statudol am resymau o ddiddordeb cyhoeddus sylweddol.

5 Os byddwch yn dewis defnyddio meddalwedd adnabod llais a/neu wynebau ar gyfer galwadau neu gyfarfodydd (cynigir yr opsiwn hwn ym meddalwedd Microsoft Teams—nid yw Archwilio Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i chi ddewis defnyddio hwn), dylech fod yn ymwybodol y bydd hyn yn golygu prosesu eich data biometrig, sef data personol categori arbennig. Y sail ar gyfer y prosesu hwn fydd Erthygl 9(2)(c) (caniatâd).

6 Mae rhywfaint o brosesu yn cael ei wneud o dan "fuddiannau cyfreithlon" (Erthygl 6(1)(f)) lle nad yw'r gweithgaredd yn dod o fewn cwmpas rhwymedigaeth gyfreithiol neu dasg gyhoeddus ond yn cefnogi swyddogaethau busnes craidd, megis trawsgrifio neu grynhoi cyfarfodydd awtomataidd.

## Sut rydym yn cael eich data personol

7 Efallai y bydd y data personol yr ydym yn ei gasglu a'i brosesu fel rhan o'n gwaith ar gael gennych yn uniongyrchol (e.e., os byddwn yn cysylltu â chi i ofyn cwestiynau penodol i chi neu i gael rhagor o wybodaeth mewn cysylltiad â'n gwaith), neu gan gyrff perthnasol, gan gynnwys y rhai yr ydym yn eu harchwilio, trwy arfer hawliau mynediad yr Archwilydd Cyffredinol.

## Pwy fydd yn gweld y data?

8 Bydd yr Archwilydd Cyffredinol a staff perthnasol Swyddfa Archwilio Cymru, megis y tîm astudiaethau, yn gallu gweld y wybodaeth a ddarperir gennych. Gall eich data personol gael ei rannu'n fewnol yn unol â'r egwyddorion diogelu data lle mae sail gyfreithiol dros brosesu hyn. Mae hyn yn cynnwys timau perthnasol o fewn Archwilio Cymru lle gall y data lywio eu gwaith, at y dibenion a ddisgrifir yn yr hysbysiad hwn.

9 Gall ein hadroddiad cyhoeddedig gynnwys rhywfaint o'ch gwybodaeth, ond byddwn yn cysylltu â chi cyn cyhoeddi unrhyw wybodaeth y gellir eich adnabod —gweler hefyd "eich hawliau" isod.

10 Efallai y byddwn yn rhannu gwybodaeth gyda:

a. a) Uwch reolwyr yn y corff/cyrff archwiliedig cyn belled ag y bo hyn yn angenrheidiol er mwyn arfer ein pwerau a'n dyletswyddau;
b. rhai cyrff cyhoeddus eraill/cyrff adolygu gwasanaethau cyhoeddus megis Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Arolygiaeth Gofal Cymru (Gweinidogion Cymru), Estyn ac Ombwdsmon Gwasanaethau

Cyhoeddus Cymru, lle mae'r gyfraith yn caniatáu hyn neu'n gofyn am hyn, megis o dan adran 19 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2019.

11 Yn unol â mentrau i yrru mabwysiadu deallusrwydd artiffisial (AI) ar draws y sector cyhoeddus ac archwilio arbedion effeithlonrwydd posibl, gellir defnyddio AI wrth brosesu data personol yn unol â'n Polisi Deallusrwydd Artiffisial a Mentrau Digidol. Mae hyn yn cynnwys cymryd nodiadau a chrynhoi data, ond ni fydd AI yn cael ei ddefnyddio i wneud penderfyniadau awtomataidd yn unig.

12 Efallai y byddwn yn cynhyrchu trawsgrifiad awtomataidd o gyfarfodydd a defnyddio M365 Copilot ar y data a gynhyrchir. Mae M365 Copilot yn gynorthwyydd wedi'i bweru gan AI wedi'i adeiladu ar fodelau iaith mawr (LLMs) ac wedi'i integreiddio i gyfres o gymwysiadau Microsoft. Mae offeryn Copilot M365 yn dilyn holl bolisïau diogelwch Archwilio Cymru.

13 Efallai y byddwn hefyd yn defnyddio offer AI yn unol â'n Polisi AI a Mentrau Digidol, fel Caseware Validate, i gynorthwyo gyda thasgau archwilio fel gwirio cywirdeb datganiadau ariannol.

## Pa mor hir rydyn ni'n cadw'r data

14 Yn gyffredinol, byddwn yn cadw eich data am 6 blynedd, er y gallai hyn gynyddu i 25 mlynedd os yw'n cefnogi adroddiad cyhoeddedig—byddwn yn cysylltu â chi cyn cyhoeddi unrhyw wybodaeth sy'n eich adnabod—gweler hefyd "eich hawliau" isod. Ar ôl 25 mlynedd, mae'r cofnodion naill ai'n cael eu trosglwyddo i Archif Genedlaethol y DU neu'n cael eu dinistrio'n ddiogel. Yn ymarferol, ychydig iawn o wybodaeth bersonol sy'n cael ei chadw y tu hwnt i 6 blynedd.

## Ein hawliau

15 Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol hawliau i gael gwybodaeth, esboniad a chymorth o dan baragraff 17 o Atodlen 8 Deddf Llywodraeth Cymru 2006, adran 52 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, adran 26 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 ac adran 98 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn ein taflen Hawliau Mynediad sydd ar gael ar ein gwefan. Gall fod yn drosedd, y gellir ei chosbi gan ddirwy, i berson fethu â darparu gwybodaeth sy'n dod o fewn hawliau mynediad ACC, ond nid yw trosedd o'r fath yn berthnasol i arolygon o'r cyhoedd yn gyffredinol, nad ydynt yn cael eu cynnal gan ddefnyddio'r hawliau mynediad statudol uchod.

## Eich hawliau

16 O dan gyfraith diogelu data mae gennych hawliau i ofyn am gopi o’r wybodaeth bersonol gyfredol a gedwir amdanoch ac i wrthwynebu prosesu data sy’n achosi difrod a gofid diwarant a sylweddol.

17 I gael copi o'r wybodaeth bersonol sydd gennym amdanoch chi neu i drafod unrhyw wrthwynebiadau neu bryderon, ysgrifennwch at y Swyddog Gwybodaeth, Archwilio Cymru, 1 Cwr y Ddinas, Stryd Tyndall, Caerdydd, CF10 4BZ neu e-bostiwch swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru. Gallwch hefyd gysylltu â'n Swyddog Diogelu Data yn y cyfeiriad hwn.

18 Mae gennych yr hawl i gwyno'n uniongyrchol i ni am drin eich data personol. E-bostiwch cwynion@archwilio.cymru.

## Swyddfa'r Comisiwn Gwybodaeth

19 I gael rhagor o wybodaeth am gyfraith diogelu data neu i gwyno i gwyno am sut rydym yn trin eich data personol, gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy fynd i: https://ico.org.uk/, ysgrifennu at: ICO, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Swydd Gaer, SK9 5AF, neu dros y ffôn ar: 0303 123 1113 (neu 0330 414 6421 i siarad yn y Gymraeg).

20 Dylech nodi, fodd bynnag, y byddai'r ICO fel arfer yn disgwyl i chi fod wedi disbyddu ein gweithdrefnau cwyno mewnol cyn delio â chwyn. Gellir dod o hyd i ragor o ganllaw ar wefan yr ICO: https://cy.ico.org.uk/make-a-complaint/data-protection-complaints/.